

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion Cyfarfod Nos Fawrth 28 Mawrth 2023 yng Nghaffi Beca am 7.30yh

Yn bresennol: Anthony Jenner (Cadeirydd), Russell Davies, Dennis Jones, Anthony Eynon, Rebecca Jaimangl Jones, Michael Fussell, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips Janice Morgan (Clerc)

Ymddiheuriadau: Tudur Lewis, Vivian Williams, Ffion John

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Mr Anthony Jenner.

Croesawyd y Cyngorwyr newydd i'w cyfarfod cyntaf, sef MF a JW.

Cam gweithredu:

- **JM i anfon y ffurflen Datganiad Derbyn Swydd/Declaration of Acceptance of Office ar ffurf Word at MF, JW a FJ iddyn nhw ei harwyddo a dychwelyd**
- **JM i e-bostio 'Good Councillor's Guide' i'r aelodau newydd fel rhan o'u sefydlu**

1. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023 fel y cawson nhw eu dosbarth i'r aelodau ar gynnig RD ac eiliwyd gan AE.

Datganiad o ddiddordeb: RD ynglŷn ag eitem 3, Cais am Grant Cymunedau Cynaliadwy

2. Materion yn codi o 31/1/23:

- Bwrdd gwybodaeth Meini Gŵyr: mae'r drafft wedi cael ei anfon at bawb; pawb yn hapus ag e; angen gwneud rhai newidiadau bach iawn ac yna bydd yn barod i gael ei argraffu.
- Arwydd safle picnic Ynys Fach: cadarnhaodd JM bod Alan Warner o'r Cyngor Sir wedi cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r arwydd a bod gwaith tacluso'r safle yn digwydd cyn bo hir. Mae'r arwydd yn cael ei argraffu ar hyn o bryd. Cytunodd pawb i Boomerang osod yr arwydd yn ei le gyda glud arbennig am gost ychwanegol o £20, ond i wneud hynny ar ôl i'r gwaith tacluso gael ei wneud.
- Sbwriel yng nghilfan barcio (lay-by) ym maes parcio Ynys Fach: cytunodd pawb i gael gwared â'r bin sbwriel i weld a fydd y broblem sbwriel yn gwella.

Cam gweithredu: DP i ofyn i'r Cyngor Sir fynd â'r bin sbwriel o gilfan barcio Ynys Fach i weld a fydd hyn yn datrys y broblem sbwriel

- Llwybrau troed: mae canllawiau Cyngor Sir Caerfyrddin i berchnogion tir yn ymwneud â'r llwybrau troed wedi cael eu hanfon at bawb.
- Mae JM wedi anfon diweddariad mewn e-bost at bawb ynglŷn â phwy yw perchnogion tir y gwahanol llwybrau a nodwyd yn y cyfarfod cyhoeddus ond mae dal rhai bylchau ynghylch rhai darnau.
- Mynegwyd consyrn am anaddasrwydd rhai o'r llwybrau troed gan eu bod mor agos at dai pobl ac felly'n amharu ar eu preifatrwydd neu yn agos i bit biswail (slurry pit). Mae un ffermwr wedi mynegi pryder o gael cerddwyr a'u cŵn yn mynd drwy glos ei fferm odro a'r risgiau iechyd a diogelwch sydd ynghlwm. Cytunwyd ei bod yn hanfodol cael trafodaeth a dod i gytundeb gyda'r perchennog tir cyn dechrau ar unrhyw waith clirio.
- Datblygu gwefan – mae JM mewn trafodaethau gyda Jamie King ar hyn o bryd ynglŷn â fformat y wefan. Mae JM yn gobeithio cael gwefan yn ei lle yn gyflym iawn.
- Diffib yng Nghanolfan Gymunedol Ffynnonwen – mae JM wedi cadarnhau gydag ysgrifennydd y Ganolfan bod y cyngor cymuned yn fodlon cyfrannu tuag at gost

cabinet wedi'i wresogi. Mae DJ hefyd wedi cadarnhau codwyd yr arian ar gyfer y cabinet yng Nghaffi Beca a'i osod gan D Phillips trwy gyfraniadau gan drigolion y gymuned a drefnwyd gan Grug a Begw Fussell.

- Llywodraethwr cymunedol ar gyfer Corff Llywodraethol Ffederal Ysgol Beca ac Ysgol Bro Brynach

Cam gweithredu: RJJ i ymholi a fyddai DJJ yn ystyried bod yn llywodraethwr cymunedol

- Llythyr o ddiolch i GJ – JM wedi anfon
- Aelodau newydd – cadarnhawyd bod FJ wedi'i chyfethol yn Gyngorydd yn lle VW ac wedi derbyn
- Tyllau ar y ffyrdd – adroddwyd am y tyllau ar bwys fferm Brynhyfryd; mae cyflwr y ffordd rhwng Nebo a Phantycaws yn wael iawn; hefyd o Eglwys Llanglydwen i Bengawse ac o Brynbanc yn Ffynnonwen, i'r sgwâr lan i'r ysgol.

Cam gweithred: Cyng DB i riportio cyflwr y ffyrdd uchod

3. Cais am Grant Cymunedau Cynaliadwy

- Cadarnhaodd JM ei bod wedi anfon gwybodaeth at bawb am Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU Cyngor Sir Caerfyrddin gwerth £38m. Mae cais wedi dod drwodd gan grwp gwirfoddolwyr llwybrau troed Login/Cwmiles i'r cyngor cymuned wneud cais am grant Cymunedau Cynaliadwy i gynorthwyo gyda'r gwaith o glirio rhai o lwybrau troed yn ardal Login. Cafodd y cais ei ddrafftio gan Julie Sweet, sef cynrychiolydd y grwp gwirfoddolwyr a chafodd ei e-bostio at bawb dros y penwythnos iddyn nhw ei ystyried.
- Mae'r dyddiad cau yn dynn iawn, sef fory 29 Mawrth, felly rhaid gwneud penderfyniad ar frys.
- Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan RD gan fod un o'r llwybrau troed yn y cais ar ei dir. Gadawodd RD y cyfarfod ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth o dan yr eitem hon.
- Dywedodd JM mai enw'r prosiect hwn fyddai 'Adfer Llwybrau Troed Cilymaenllwyd' ac mae'r cais grant am £57,362.20 sy'n cynnwys contractiwr yn clirio'r llwybrau troed a nodwyd yn y cais gan gynnwys gosod gatiâu, pyst ac ati a hefyd prynu dau dorwr prysgoed ac offer diogelwch. Y cyngor cymuned fyddai berchen ar yr offer hwn.
- Mae 3 dyfynbris wedi cael eu cyflwyno. Cafodd y 3 becyn gwybodaeth a chyfle i gerdded y llwybrau cyn cyflwyno dyfynbris.
- Codwyd peth consyrn ynglyn âg yswiriant. Byddai angen sicrhau bod gan y contractiwr ysgwiriant priodol cyn ymgymryd â'r gwaith clirio rhag ofn achosi unrhyw ddifrod.
- Byddai angen gwneud yn siwr bod yswiriant y cyngor cymuned yn ddigonol hefyd cyn i grwpiau gwirfoddol weithredu'r peiriannau torri prysgoed a hefyd cael asesiad risg o'r gweithgaredd hwn.
- Mae'r cais yn nodi os yn llwyddiannus, taw AJ fydd yn rheoli'r prosiect a JSweet yn ddirprwy.
- Byddai rhaid bod yn drefnus a gofalus iawn gyda thaliadau gan taw'r cyngor cymuned fydd yn talu'r contractiwr ac yna'r cyngor cymuned yn hawlio'r arian yn ôl oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Felly byddai angen i'r contractiwr gyflwyno anfonebau am symiau bach yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod digon o arian yn y coffrau.
- Dywedodd JM bod llawer iawn o waith wedi mynd i mewn i ddrafftio'r cais ac y byddai'n cael ei gyflwyno yn Gymraeg gan ein bod yn gweithredu yn Gymraeg. Mae angen atodi dogfennau ategol i fynd gyda'r cais, sef y cyfansoddiad, polisïau, cyllideb a manylion banc ac yswiriant a llythron o gefnogaeth. Mae dros 40 o lythron wedi

dod i mewn gan unigolion a theuluoedd, busnesau a busnesau twristiaeth a sefydliadau lleol o fewn y gymuned.

- Ar ôl trafod y cais yn helaeth, cytunwyd ei gyflwyno.
Cam gweithredu: JM i anfon y cais am grant erbyn y dyddiad cau sef 29/3/23

4. Gohebiaeth

- Cais gan Gylch Meithrin Ffynnonwen am nawdd ariannol. Cytunwyd rhoi £600 fel y llynedd
- Derbyniwyd apêl am arian gan: Cruse Bereavement Support - Cruse Galar Cymru a hefyd Cymorth Canser Macmillan ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Gan nad ydyn nhw'n sefydliadau lleol, gwrthodwyd eu cais am arian y tro hwn
- Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan 'Y Cardi Bach' am y rhodd o £250
- Mae JM wedi anfon yr ymgynghoriadau canlynol allan at sylw pawb:
 - Safle ysbyty newydd – 2 safle dan ystyriaeth: 2 yn Hendgwyn ac 1 yn San Clêr. Rhannwyd dyddiadau'r sesiynau galw heibio cyhoeddus gyda phawb
 - Adolygiad Cymunedol i gynghorau tref a chymuned yn Sir Gaerfyrddin – yn edrych ar nifer aelodau'r cyngor i'r gymuned; sut mae wedi ei rannu'n wardiau; nifer a ffiniau urhyw wardiau
 - Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033 – gweler adran 8 am fwy o fanylion ar hyn
 - Rheolau Cofrestru newydd am holl geidwaid adar ym Mhrydain
- Mae JM wedi anfon y wybodaeth ganlynol at bawb:
 - Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU – gweler adran 3
 - Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – gweler adran 8

5. Arwyddo sieciau/mandad

- Diweddariad ariannol: cadarnhaodd JM bod £12,818.91 yn y cyfrif cyfredol
- Cafodd siec i JM am gyflog y clerch o £1291.20 ei wrthod gan fod anghysondeb gyda'r trefniadau llofnodi ar y mandad. Roedd Banc Barclays wedi nodi ar y mandad oedd wedi cael ei adnewyddu bod angen tri llofnod ond newidiwyd hyn i ddau lofnod fel sydd wedi bod erioed. Bydd angen ysgrifennu siec newydd
- Sieciau yn daladwy i:
 - Mr Robert James, Caffi Beca - £25
 - Cylch Meithrin Ffynnonwen - £600
 - Aelodaeth 2023/24 Un Llais Cymru/One Voice Wales - £134
 - Cyngor Sir Caerfyrddin am Etholaethau Cymunedol 2022/23 - £323.32
 - Cyfraniad eleni tuag at Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 - £500

6. Cynllunio

- Cafodd y ceisiadau canlynol eu cyflwyno ers y cyfarfod diwethaf:
 - Datblygiad Un Blaned yn cynnwys tŷ, sied offer, ysgubor wair, twnnel polythen a thyrbin gwynt - tir ar bwys chwarel Garnwen
 - 3 tŷ coeden eco hunan-ddarpar 1 ystafell wely newydd yn 'Coed Llys Mill Alpaca Ranch', ar bwys llwybr rhannu defnydd arfaethedig y Cardi Bach - Melin Coedllys, Login
 - Caniatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer adeilad i'w ddefnyddio at ddefnydd cyflogaeth - Llys Awel, Efailwen
 - Twnnel polythen – Sŵn yr Adar, Hebron
 - Adeilad allanol a ddefnyddir at ddibenion domestig - Lower Hill, Login

- Ni fu unrhyw wrthwynebiad am y ceisiadau uchod.

7. Cynllun Hyfforddiant

- Anfonwyd rhestr o sesiynau hyfforddiant arlein diweddaraf at bawb. Anogwyd pawb i ystyried cofrestru ar sesiwn, yn enwedig yr aelodau newydd fel rhan o'u rhaglen sefydlu
- Bydd angen i'r cyngor cymuned gael cynllun hyfforddiant yn ei lle ar gyfer 2023/24
Cam gweithredu: JM i baratoi drafft o gynllun hyfforddiant ar gyfer cyfarfod mis Mai i bawb ei ystyried

8. Unrhyw Fater Arall

Diweddariad gan y Cyngh DP:

- LDP Diwygiedig (2018 – 2033): Dywedodd DP ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ymateb i'r cynigion newydd sydd yn yr LDP sydd dan ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae 3 safle yn yr ardal hon yn cael eu hystyried ar gyfer cartrefi newydd a fforddiadwy: 2 safle yng Nglandy Cross ac 1 yn Efailwen. Y dyddiad cau yw canol Ebrill. Bydd y linc i'r manylion yn cael ei e-bostio at bawb
Cam gweithredu: JM i anfon manylion yr LDP at bawb. Pawb i edrych ar y mapiau a'r manylion ar gyfer y 2 safle yn Glandy Cross a'r 1 safle yn Efailwen; ystyried yr anghenion lleol (h.y. ydy'r datblygiad o 10% yn ddigon i ateb anghenion lleol?) ac anfon sylwadau i Gyngor Sir Caerfyrddin
- Cydnabyddiaeth ariannol: Cadarnhaodd DP, yn dilyn yr ymgynghoriad am gydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr, ers Mai 2022 dylai pob Cynghorydd gael eu talu £150 y flwyddyn. Gall Cynghorwyr benderfynu peidio â'i dderbyn
Cam gweithredu: JM i anfon y wybodaeth at bawb a chadarnhau'r gofynion ynglyn â chydabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr
- Y Cardi Bach – mae'r gwaith yn symud yn ei flaen. Mae arolwg ecoleg yn cael ei wneud ar hyn o bryd ac yn edrych ar ddau fan i agor rhwng Rhydowen a Llanglydwen. Mae 4ydd rownd o ddarluniau wedi cael eu drafftio ar gyfer Llanfyrnach i Grymych
- Sbwriel – roedd llawer heb dderbyn y bocsys du ac roedd hyn wedi achosi problem. Fe wnaeth DP allan gyda'r Cyngor Sir yn y pendraw a sicrhau bod pawb yn derbyn un. Dywedodd DP bod y drefn ailgylchu sbwriel newydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn barod i'r sir ac mae maint y sbwriel sy'n cael ei ailgylchu wedi codi'n sylweddol
- Rhwydwaith Voneus – maen nhw'n gweithio yn yr ardal ac wedi gosod bocsys ym Maenclochog
- Dywedodd JM bod angen llunio adroddiad S6 ar gyfer 2022/23 sef adroddiad ar ddyletswyddau bioamrywiaeth
Cam gweithredu: JM i ddrafftio adroddiod S6 a'i ddsbarthu i bawb ar gyfer eu sylwadau


9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Nos Fawrth 30ain Mai 2023 am 7.30yh yng Nghaffi Beca.

Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd

Arwyddwyd:

Cadeirydd:



.....

Dyddiad: 06/06/2023